# Canllaw i Gyfansoddiad
# Cyngor Sir Caerfyrddin

Lluniwyd yn unol ag adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

## Cyflwyniad

### Y cyfansoddiad

Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol unigolion a chyrff, sy'n cydweithio i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn disgrifio'r gwahanol bobl a'r cyrff sy'n rhan o'r Cyngor, eu swyddogaethau, a'r rheolau gweithdrefn sy'n rheoli sut mae'r cyrff hynny'n cydweithio i ddarparu gwasanaethau.

Bwriedir iddo: -

- alluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau yn effeithlon ac effeithiol;
- eich helpu i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi;
- helpu Cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol; a'ch
- galluogi i ddwyn y Cyngor i gyfrif.

Un o brif amcanion y cyfansoddiad yw nodi'n glir yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gan y Cyngor, a'r hyn y gallwch ei wneud os na fodlonir eich disgwyliadau.

### Y canllaw hwn

Cynlluniwyd y canllaw hwn i'ch helpu i ddeall sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau ac yn gweithio i ddarparu gwasanaethau yn eich ardal a sut y gallwch chi gymryd rhan. Mae'n rhoi trosolwg o gyfansoddiad y Cyngor ac yn egluro rhannau allweddol o'r cyfansoddiad mewn iaith glir a syml.

Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i'r sefydliadau hynny sy'n gweithio gyda'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau yn ardal y Cyngor.

Mae rhan gyntaf y canllaw hwn yn esbonio pam bod y cyfansoddiad yn bwysig a sut y caiff ei adolygu a'i ddiweddaru.

Mae'n anelu i ateb cwestiynau fel: -

- *Pam bod gan y Cyngor gyfansoddiad?*
- *Sut mae cael copi o'r cyfansoddiad?*
- *Pwy sy'n gyfrifol am gadw'r cyfansoddiad yn gyfredol?*

Mae ail ran y canllaw hwn yn esbonio strwythur y Cyngor. Mae'n disgrifio cyrff democrataidd y Cyngor, y dull o wneud penderfyniadau, a phwy sy'n gwneud y penderfyniadau hynny.

Mae'n egluro swyddogaethau'r Cyngor, ei Gabinet a'i bwyllgorau, a pha gorff o'r Cyngor sy'n gyfrifol am bolisïau a phenderfyniadau neilltuol.

Mae'n anelu i ateb cwestiynau fel: -


- *Beth mae fy Nghynghorydd lleol yn ei wneud?* t.8
- *Beth mae'r Cyngor yn ei wneud?* t.10
- *Beth sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y Cyngor?* t.11
- *Sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau?* t.11
- *Sut mae cael gwybod am benderfyniad y Cyngor ar fater sy'n effeithio arna i?* t.13
- *Beth mae'r Cabinet (a elwir hefyd yn Weithrediaeth) yn ei wneud?* t.14
- *Sut mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau?* t.15
- *Pwy sy'n gyfrifol am gynnal safonau a dwyn Cynghorwyr i gyfrif am eu hymddygiad?* t.17
- *Beth mae pwyllgorau'r Cyngor yn ei wneud?* t.18
- *Beth mae’r pwyllgor cynllunio yn ei wneud?* t.18
- *Pwy sy'n gyfrifol am lywodraethu, archwilio a rheoli risg?* t.18


Yn nhrydedd ran y canllaw hwn esbonnir rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig a swyddogion cyflogedig y Cyngor. Mae'n disgrifio'r swyddi a wnânt, a sut maent yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni swyddogaethau a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae hefyd yn egluro'r codau ymddygiad sy'n rheoli ymddygiad cynghorwyr a swyddogion a'r safonau y gallwch eu disgwyl ganddynt o ran ymddygiad.

Mae'n anelu i ateb cwestiynau fel: -


- *Beth mae'r Cadeirydd yn ei wneud?* t.23
- *Beth mae'r Arweinydd yn ei wneud?* t.24
- *Mae fy Nghynghorydd yn aelod o'r Cabinet, beth mae hyn yn ei olygu?* t.24
- *Sut y caiff aelodau'r Cabinet eu cefnogi?* t.24
- *Beth mae'r Prif Weithredwr yn ei wneud?* t.25

- *Pa gyfrifoldebau sydd gan y Swyddog Monitro?* t.25
- *Sut y dylai Cynghorwyr ymddwyn?* t.27
- *Sut y dylai Swyddogion ymddwyn?* t.27
- *A oes unrhyw ofynion arbennig pan fydd Cynghorwyr neu Swyddogion yn penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio?* t.29
- *Sut mae cwyno am ymddygiad Cynghorydd?* t.31
- *Sut mae rhoi gwybod am bryderon ynghylch ymddygiad Swyddog a gyflogir gan y Cyngor?* t.31

Ym mhedwaredd ran y canllaw hwn ceir crynodeb o'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n rheoli'r modd y mae'r Cyngor yn cyflawni swyddogaethau penodol.

Mae'n anelu i ateb cwestiynau fel: -

- *Ble mae cael hyd i gynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor?* t.32
- *Sut y penderfynir ynghylch fframwaith polisi'r Cyngor?* t.32
- *Sut mae'r Cyngor yn pennu ei gyllideb?* t.33
- *A ellir gwneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyllideb neu'r fframwaith polisi?* t.33
- *A ellir symud arian o'r naill bennawd cyllideb i'r llall ar ôl mabwysiadu'r gyllideb?* t.34
- *A oes unrhyw gyfyngiadau ar y modd y mae'r Cyngor yn prynu nwyddau a gwasanaethau i mewn?* t.34
- *Sut mae'r Cyngor yn ymrwymo i gontractau a chytundebau?* t.35

Mae rhan olaf y canllaw hwn yn esbonio sut y gallwch ymgysylltu â'ch Cyngor a democratiaeth leol, a chymryd rhan ynddynt. Mae'n egluro sut y caiff eich cynghorwyr eu hethol, sut y gallwch gysylltu â'ch cynghorydd, codi cwestiynau a siarad mewn cyfarfodydd, a sut y gallwch ddefnyddio deisebau i godi materion sy'n bwysig i chi gyda'r Cyngor.

Mae'n anelu i ateb cwestiynau fel: -

- *Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i ymgysylltu â phobl leol?* t.35
- *A allaf anfon deiseb i'r Cyngor?* t.36

- *Sut mae cael gwybod pryd mae cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau a'i gyrff yn cael eu cynnal?* t.36
- *Sut mae cael gwybod beth fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod penodol?* t.36
- *Sut mae cael gwybod pryd y penderfynir ynghylch mater sydd o ddiddordeb imi?* t.37
- *A gaf i ofyn i bwyllgor neu gorff o'r Cyngor ymchwilio i fater penodol?* t.37
- *A allaf fynd i gyfarfodydd o'r Cyngor Llawn?* t.37
- *A allaf fynd i gyfarfodydd eraill?* t.38
- *A allaf siarad mewn cyfarfod?* t.38
- *A gaf i ofyn cwestiwn mewn cyfarfod?* t.38
- *Sut mae cael gwybod beth oedd penderfyniad y Cyngor?* t.38
- *A gaf weld cyfrifon y Cyngor i ddeall sut mae'n gwario fy nhreth gyngor?* t.39


Drwy gydol y canllaw hwn, ceir cyfeiriadau at adrannau mwyaf perthnasol y cyfansoddiad ac at adnoddau ychwanegol sydd ar gael ar wefan y Cyngor i'ch galluogi i ddarllen mwy am destun neilltuol os dymunwch.

Ceir hefyd fynegai fanwl ar dudalen olaf y canllaw hwn i'ch galluogi i chwilio am destunau a materion penodol sydd o ddiddordeb i chi.

Os oes unrhyw beth yn aneglur yn y canllaw hwn, neu os oes unrhyw beth ar goll, rhowch wybod inni er mwyn inni allu ei wella.

Gallwch gysylltu â ni drwy anfon e-bost at SwyddogMonitro@sirgar.gov.uk

## Rhan 1 Y cyfansoddiad

Mae'r cyfansoddiad yn rheoli'r ffordd y mae'r Cyngor, Cynghorwyr a swyddogion sy'n gweithio yn y Cyngor yn cydweithio i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Mae'n sicrhau bod pawb yn y Cyngor yn gweithredu'n gyfreithlon, yn deg ac yn briodol a bod swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu cyflawni'n briodol ac yn effeithiol.

Mae erthygl 1 y cyfansoddiad yn egluro pwrpas y cyfansoddiad Cyfansoddiad y Cyngor

Gallwch gael copi o'r cyfansoddiad o swyddfeydd y Cyngor a'i weld ar wefan y Cyngor. Rhaid darparu copi o'r cyfansoddiad hefyd i bob Cynghorydd wrth gael ei ethol i'r Cyngor.

Gallwch weld cyfansoddiad y Cyngor ar wefan y Cyngor neu drwy'r ddolen hon :-Y Cyfansoddiad

Mae Erthygl 15.03 y cyfansoddiad yn egluro sut y mae'n rhaid cyhoeddi'r cyfansoddiad, ymhle ac ar ba bryd.

Y Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am gynnal ac adolygu'r cyfansoddiad. Mae'r Swyddog Monitro hefyd yn gyfrifol am benderfynu sut y dylid deall a chymhwyso'r cyfansoddiad. Gallwch ddarllen mwy am rôl y Swyddog Monitro yn Rhan 4 y canllaw hwn.

Y Cyngor Llawn sy'n gyfrifol am gytuno ar y cyfansoddiad. Cyn gynted ag y cytunir arno, dim ond y Cyngor Llawn a all ei newid. Fel arfer, caiff newidiadau i'r cyfansoddiad eu hargymell i'r Cyngor Llawn gan y Swyddog Monitro.

Mewn rhai amgylchiadau, gall y Swyddog Monitro gyflwyno newidiadau i'r cyfansoddiad. Fel arfer, bydd newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cael eu hargymell i'r Cyngor Llawn gan Weithgor Adolygu Cyfansoddiad y Cyngor, sef Grŵp o aelodau trawsbleidiol, a gynghorir gan y Swyddog Monitro.

Mae Erthygl 14.2 y cyfansoddiad yn eguro sut y cytunir ar y cyfansoddiad, a sut y gellir ei newid.

Mae'r cyfansoddiad hefyd yn rheoli'r dull o gynnal cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau. Bydd y sawl sy'n cadeirio cyfarfod yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at y cyfansoddiad yn ystod y cyfarfod hwnnw.

## Rhan 2 Strwythurau democrataidd y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnwys Cynghorwyr sy'n cael eu hethol bob pum mlynedd i gynrychioli pobl sy'n byw yng ngwahanol rannau o ardal y Cyngor (gelwir y rhain yn 'wardiau' yn y cyfansoddiad).

Mae cynghorwyr yn gyfrifol am bawb sy'n byw yn ardal y Cyngor, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig tuag at bobl sy'n byw yn y ward.

Mae Rhan 6.2 y cyfansoddiad yn rhoi trosolwg o'r modd y mae Cynghorwyr unigol yn cydweithio fel Cyngor.

Bydd yr holl Gynghorwyr yn cyfarfod yn rheolaidd fel Cyngor Llawn. Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am osod cyllideb, blaenoriaethau polisi a fframwaith polisi cyffredinol y Cyngor.

Ar ddechrau pob blwyddyn, bydd y Cyngor Llawn yn ethol un Cynghorydd yn Gadeirydd arno. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd y Cyngor Llawn ac am sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn briodol ac yn unol â'r rheolau. Y Cadeirydd hefyd yw Prif Ddinesydd y Sir ac mae'n gyfrifol am gyflawni rhai swyddogaethau seremonïol.

Gallwch ddarllen mwy am y rolau hyn yn Rhan 3 y canllaw hwn.

Mae'r Cyngor yn penodi neu'n ethol Arweinydd (gall yr unigolyn hwnnw fod yn arweinydd y grŵp gwleidyddol mwyaf neu glymblaid o grwpiau gwleidyddol). Gall yr Arweinydd hefyd benodi cynghorwyr unigol i'r Cabinet. Fel arfer, bydd yr Arweinydd yn penodi cynghorwyr o'i grŵp gwleidyddol ei hun i'r Cabinet, er y caiff benodi cynghorwyr o unrhyw grŵp gwleidyddol i'r Cabinet. Mae aelodau'r Cabinet yn gyfrifol am feysydd polisi penodol, a elwir fel arfer yn bortffolios. Lle rhoddir cyfrifoldeb i aelod o'r Cabinet am faes gwaith neu swyddogaeth neilltuol, dywedir yn y cyfansoddiad bod y maes hwnnw wedi'i ddirprwyo i'r aelod dan sylw.

Mae'r Cabinet yn cyfarfod yn rheolaidd, fel arfer bob pythefnos, i wneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch yr agweddau hynny ar waith y Cyngor y mae'r Cabinet yn gyfrifol amdanynt.

Caiff rhai o swyddogaethau'r Cyngor eu cyflawni gan bwyllgorau. Grwpiau bach o Gynghorwyr yw pwyllgorau sy'n cyfarfod i gyflawni rhai o swyddogaethau rheoleiddio

a chraffu'r Cyngor. Gyda rhai eithriadau, bydd pwyllgorau'n cynnwys cynghorwyr o bob grŵp gwleidyddol yn yr un gyfran ag y cânt eu cynrychioli ar y Cyngor Llawn (a elwir fel arfer yn "gydbwysedd gwleidyddol") onid yw pawb yn cytuno fel arall.

Hyd yn ddiweddar, byddai'n rhaid cynnal pob cyfarfod o'r cyngor (boed y rheiny'n Gyngor Llawn, yn Gabinet neu'n bwyllgor neu is-bwyllgor) yn y cnawd, a dim ond y cynghorwyr hynny a oedd yn bresennol yn y cnawd yn y cyfarfod a allai gymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio. Gall cynghorau bellach gyfarfod drwy ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda. Gellir naill ai cynnal cyfarfodydd "o bell" (lle bydd yr holl gynghorwyr mewn gwahanol fannau), neu'n "hybrid" (lle bydd rhai pobl yn bresennol yn yr un fan, ac eraill mewn mannau gwahanol). Hyd yn oed os bydd pawb sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod yn dewis bod yn bresennol yn y cnawd, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod dewis ar gael i ymuno â'r cyfarfod o bell. Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno arsylwi cyfarfod fod yn bresennol yn y cnawd neu o bell, ac eithrio rhannau eithriedig o'r cyfarfod.

Gall y Cyngor Llawn ddefnyddio unrhyw staff cyflogedig (a elwir yn swyddogion) a ystyrir yn angenrheidiol ganddo. Gall y Cabinet, y Cyngor Llawn a phwyllgorau ddirprwyo swyddogaethau i swyddogion. Ceir rhagor o wybodaeth am swyddogaethau wedi'u dirprwyo yn y cynllun dirprwyo i swyddogion

Gallwch ddarllen mwy am y strwythurau hyn yn adrannau canlynol y Rhan hon o'r canllaw.

## Y Cynghorwyr

Caiff Cynghorwyr eu hethol gan y bobl sy'n byw mewn ward neilltuol i'w cynrychioli ar y Cyngor. Fodd bynnag, mae Cynghorwyr hefyd yn atebol i'r gymuned ehangach, a rhaid iddynt weithredu er budd pennaf pawb sy'n byw yn ardal y Cyngor.

Os ydych chi am ddwyn mater i sylw'r Cyngor, ac nad ydych y siŵr pwy i gysylltu â nhw, efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â'ch Cynghorydd i ofyn am gymorth.

Gallwch ddarganfod pwy yw eich Cynghorydd lleol a'u manylion cyswllt ar Wefan y Cyngor

Mae pob Cynghorydd yn aelod o'r Cyngor Llawn, a gallant hefyd fod yn aelodau o un neu fwy o gyrff aelodau'r Cyngor (fel y Cabinet neu bwyllgor). Lle bo Cynghorwyr yn gweithredu fel aelod o gorff neilltuol o fewn y Cyngor, fe'u gelwir yn y cyfansoddiad yn 'Aelodau'.

Ceir esboniad llawnach o hyn yn y rhestr o ddiffiniadau yn Erthygl 2 y cyfansoddiad.

Mae gan gynghorwyr hawliau penodol sydd wedi’u nodi yn y cyfansoddiad, sy’n eu galluogi i godi materion a chyflwyno sylwadau ar eich rhan.

Er enghraifft, gall Cynghorwyr: -

- gweld unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn cyflawni eu rôl fel aelod o’r Cyngor;
- mynd i unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, ei bwyllgorau neu'r Cabinet;
- siarad yn unrhyw gyfarfod o unrhyw gorff y Cyngor y maen nhw'n aelod ohono;
- gyda chaniatâd y cadeirydd, siarad yn unrhyw gyfarfod o gorff y Cyngor (hyd yn oed os nad ydynt yn aelod o'r corff hwnnw);
- siarad â'r Arweinydd, neu aelodau'r Cabinet neu swyddogion y Cyngor am unrhyw agwedd ar fusnes y Cyngor; a
- gwneud cwynion.

Mae hawliau cynghorwyr i wybodaeth wedi'u nodi yn Erthygl 2.4 y cyfansoddiad.

Mae hawliau cynghorwyr i gymryd rhan yn nhrafodion y Cyngor wedi’u nodi yn **Rhan 4.1 RhGC 4** y cyfansoddiad.

Gall cynghorwyr godi cwestiynau yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn a phwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor, cyflwyno cynigion i'r Cyngor Llawn a galw penderfyniadau i mewn.

Mae'r rheolau ynghylch sut y caiff yr hawliau hyn eu harfer wedi'u nodi yn Rhan 4.1 (Rheolau Gweithdrefn y Cyngor), Rhan 4.4 (Rheolau Gweithdrefnau Gweithredol) a Rhan 4.5 (Rheolau Gweithdrefnau Craffu) y cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen mwy am rôl Cynghorwyr etholedig a'r rhinweddau sy'n gwneud Cynghorydd da yn y disgrifiad rôl (yn Rhan 6 o Atodiad A y cyfansoddiad) ac mae manyleb y person wedi'i chynnwys.

## Y Cyngor Llawn

Mae Erthygl 4 y cyfansoddiad yn rheoli'r Cyngor Llawn.

**Beth mae'r Cyngor Llawn yn ei wneud?**

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i rai penderfyniadau pwysig gael eu gwneud gan yr oll Gynghorwyr drwy gyfarfod ar ffurf y Cyngor Llawn. Yn y cyfansoddiad, gelwir y rhain yn swyddogaethau'r Cyngor Llawn. Gall y Cyngor benderfynu y dylai'r Cyngor Llawn gyflawni swyddogaethau eraill anweithredol hefyd. Gelwir y rhain yn swyddogaethau dewis lleol yn y cyfansoddiad, gan fod y Cyngor yn cael dewis pa berson neu gorff a ddylai eu cyflawni.

Mae Rhan 3.1 y cyfansoddiad yn egluro'r gwahanol fathau o swyddogaethau a gyflawnir gan y Cyngor a pha ran o'r Cyngor sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am y canlynol, ymhlith agweddau eraill: -

- cytuno ar y cyfansoddiad, ac unrhyw newidiadau i'r cyfansoddiad;
- gosod cyllideb y Cyngor;
- datblygu Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor (sy'n egluro sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol mewn meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, plant a phobl ifanc a diogelwch cymunedol);
- cytuno ar gynlluniau a strategaethau allweddol (a elwir yn y cyfansoddiad yn 'fframwaith polisi');
- adolygu ac adrodd ar berfformiad y Cyngor;
- ethol yr Arweinydd a'r Cadeirydd a
- phenodi'r Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion eraill.

Rhestrir holl swyddogaethau'r Cyngor Llawn yn Erthygl 4.2 y cyfansoddiad.

Cadeirir cyfarfodydd y Cyngor Llawn gan y Cadeirydd. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â´r cyfansoddiad a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd priodol, teg a chyfreithlon.

Gallwch ddarllen mwy am rôl y Cadeirydd yn Rhan 3 y canllaw hwn.

## Beth sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn?

Bydd y Cyngor Llawn yn cyfarfod yn gynnar ym mhob blwyddyn ariannol i ethol Cynghorwyr i swyddi penodol ar y Cyngor, i benodi Cynghorwyr i gyrff allanol ac i sefydlu pwyllgorau a gweithgorau i gyflawni busnes y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Gelwir hwn yn gyfarfod blynyddol.

Disgrifir amseriad y cyfarfod blynyddol a'r materion i'w penderfynu yn y cyfarfod hwnnw yn rheolau gweithdrefn y cyngor yn Rhan 4 RhGC 1 y cyfansoddiad.

Yn y cyfarfod blynyddol, bydd y Cyngor hefyd yn penderfynu pa mor aml y dylai'r holl Gynghorwyr gyfarfod fel y Cyngor Llawn. Gelwir y cyfarfodydd rheolaidd hyn o'r Cyngor Llawn yn gyfarfodydd cyffredin.

Cynhelir cyfarfodydd cyffredin yn unol â rheolau gweithdrefn y cyngor yn Rhan 4 RhGC 2 y cyfansoddiad.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i'r Cyngor Llawn gyfarfod cyn ei gyfarfod arferol nesaf i drafod mater o bwysigrwydd neu frys arbennig. Gelwir hwn yn gyfarfod arbennig o'r Cyngor.

Mae'r broses ar gyfer galw cyfarfod arbennig a'r materion y gellir eu trafod yno wedi'u nodi yn Rhan 4 RhGC 3 y cyfansoddiad.

Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod am gyfarfodydd y Cyngor Llawn, drwy gyhoeddi hysbysiad cyn pob cyfarfod. Mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys gwybodaeth benodol fel dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod, a sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod o bell drwy fideo-gynadledda.

Gallwch ddarllen mwy am gymryd rhan mewn cyfarfodydd o'r Cyngor yn rhan 4 y canllaw hwn.

Mae Rhan 4 RhGC 5 a 6 y cyfansoddiad yn rheoli trefniadau cyfarfodydd a gofynion hysbysu.

## Sut mae'r Cyngor Llawn yn gwneud penderfyniadau?

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn unol â chyfres gytunedig o reolau sy'n anelu i sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal yn deg ac effeithlon, a bod pob Cynghorydd yn gallu codi cwestiynau a gwneud sylwadau ar ran y cyhoedd.

Mae'r rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal cyfarfodydd wedi'u nodi yn Rhan 4 RhGC 14 y cyfansoddiad.

Gwneir penderfyniadau drwy gael Cynghorwyr i fwrw pleidlais o blaid neu yn erbyn penderfyniad neilltuol (a elwir yn gynnig yn y cyfansoddiad). Gall cynghorwyr hefyd gynnig gwelliannau (newidiadau) i gynnig penodol, y mae'n rhaid pleidleisio arnynt wedyn.

Yn y gorffennol, byddai pleidleisiau'n cael eu cynnal drwy godi llaw, gyda Chynghorwyr yn codi eu llaw i ddangos a oeddent yn pleidleisio o blaid neu'n erbyn cynnig penodol, neu a oeddent yn dymuno ymatal (hy, peidio pleidleisio o blaid nac yn erbyn y cynnig). Mae cynghorau bellach yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys padiau pleidleisio electronig ar gyfer cyfarfodydd lle bo Cynghorwyr yn bresennol yn y cnawd, a chyfleusterau pleidleisio electronig o fewn platfformau lle bo cyfarfodydd yn cael eu cynnal o bell neu'n hybrid.

Fel arfer ar gyfer penderfyniadau bydd angen mwyafrif syml o blith y rhai sy'n pleidleisio dros gynnig neilltuol. Hynny yw, rhaid i fwy o Gynghorwyr bleidleisio o blaid cynnig nag yn ei erbyn. Pan fo'r bleidlais yn gyfartal wedi i'r holl Gynghorwyr bleidleisio, bydd y Cadeirydd yn cael bwrw ail bleidlais, sef pleidlais fwrw.

Gall deg Cynghorydd ofyn am gael cofnodi pleidlais ar fater penodol. Pan fydd pleidlais yn cael ei chofnodi, bydd enwau'r Cynghorwyr yn cael eu galw yn ôl yr wyddor, a'u pleidlais yn cael ei nodi a'i chynnwys yng nghofnodion y cyfarfod. Gall cynghorwyr hefyd ofyn am gael cofnodi eu pleidlais unigol ar gynnig penodol yn y cofnodion.

Nodir y trefniadau pleidleisio yn Rhan 4 RhGC 16 y cyfansoddiad.

## Oes angen i bob Cynghorydd fod yn bresennol cyn y gellir gwneud penderfyniad?

Does dim angen i bob Cynghorydd bleidleisio ar bob penderfyniad. Yn wir, mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn amhriodol i Gynghorydd bleidleisio ar fater neilltuol (ee, os oes ganddo fuddiant personol mewn penderfyniad). Gallwch ddarllen mwy am hyn yn rhan tri y canllaw hwn.

Fodd bynnag, er mwyn i'r Cyngor wneud penderfyniad cyfreithlon mae'n rhaid i isafswm o Gynghorwyr fod yn bresennol mewn cyfarfod ("cworwm" yw'r enw arferol am hyn). Yn y cyfansoddiad, gelwir yr isafswm o Gynghorwyr y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfod yn gworwm y cyfarfod hwnnw. Yn Sir Gaerfyrddin y cworwm yw 25, sef traean o gyfanswm yr aelodau.

Mae Rhan 4 RhGC 8 y cyfansoddiad yn nodi'r isafswm o Gynghorwyr y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol er mwyn i'r Cyngor Llawn wneud penderfyniad.

## A gaiff cyfarfodydd eu recordio/cofnodi?

Caiff cyfarfodydd y Cyngor Llawn eu darlledu'n fyw ar wefan y Cyngor

Cedwir cofnod o bob cyfarfod ar ffurf cofnodion. Bydd y cofnodion yn cynnwys cofnod o'r cynigion a gyflwynwyd i'r cyfarfod, a'r penderfyniadau a wnaed. Byddant hefyd yn cofnodi pwy oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Cytunir ar gofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, ac fe'u cyhoeddir ar wefan y Cyngor yn unol â rheolau gweithdrefn mynediad at wybodaeth y Cyngor.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi cofnod o'r penderfyniadau a wneir ym mhob cyfarfod o'r Cyngor Llawn, y Cabinet a'r pwyllgorau a'r is-bwyllgorau cyn pen saith diwrnod ar ôl y cyfarfod.

Os ydych am wybod beth wnaeth y Cyngor ei benderfynu am fater sy'n effeithio arnoch chi, gallwch ddarllen y cofnodion neu'r cofnod o benderfyniadau ar gyfer y cyfarfod lle trafodwyd y mater hwnnw.

Ceir gwybodaeth am drefniadau darlledu'r Cyngor yn adran 4.2 y cyfansoddiad ac ar wefan y Cyngor

Ceir gwybodaeth am gofnodion yn adran 4.2 y cyfansoddiad.

Mae rheolau'r weithdrefn mynediad at wybodaeth wedi'u cynnwys yn Rhan 4.2 o'r cyfansoddiad.

Mae cofnodion cyfarfodydd a chofnodion benderfyniadau ar gael ar wefan y Cyngor

## Y Cabinet [a elwir hefyd yn Weithrediaeth]

Mae'r Cabinet yn cynnwys yr Arweinydd a Chynghorwyr unigol a benodir i'r Cabinet gan yr Arweinydd.

Mae Erthygl 7.3 y cyfansoddiad yn egluro cyfansoddiad y Cabinet a'r modd y penodir Cynghorwyr i'r Cabinet.

Gall dau neu fwy o Gynghorwyr gyflawni rôl yr Arweinydd neu unrhyw rôl ar y Cabinet drwy drefniant rhannu swydd.

Mae Erthygl 7.3 y cyfansoddiad yn egluro'r trefniadau rhannu swydd ar gyfer aelodau'r Cabinet

### Beth mae'r Cabinet yn ei wneud?

Yr Arweinydd sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau gweithredol y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'n ymarferol i'r Arweinydd gyflawni pob un o’r swyddogaethau hyn ar ei ben ei hun, felly mae’n dirprwyo cyfrifoldeb am rai swyddogaethau i’r Cabinet, i aelodau’r Cabinet, i swyddogion y Cyngor neu i gyrff eraill.

Yr Arweinydd sy'n penderfynu pa swyddogaethau i'w dirprwyo ac i bwy. Gelwir hyn yn gynllun dirprwyo'r Cyngor.

Mae Rhan 4.4 y cyfansoddiad yn egluro sut mae'r Arweinydd yn dirprwyo swyddogaethau.

Ceir hyd i gynllun dirprwyo'r Cyngor yn Rhan 3 y cyfansoddiad.

### Cyfarfodydd y Cabinet

Bydd yr Arweinydd yn penderfynu pryd y bydd y Cabinet yn cyfarfod. Bydd hefyd yn cadeirio cyfarfodydd y Cabinet.

Mae'r cyfansoddiad yn rhagnodi rhai materion y mae'n rhaid eu hystyried ym mhob cyfarfod o'r Cabinet. Yn ogystal â hynny, gall yr Arweinydd, aelodau'r Cabinet a rhai Prif Swyddogion ofyn am gael ychwanegu eitem busnes at agenda'r cyfarfod.

Cynhelir cyfarfodydd y Cabinet yn unol â'r rheolau gweithdrefn a thrafodaeth a nodir yn y cyfansoddiad.

Mae rheolau gweithdrefn a thrafodaeth y Cabinet wedi'u nodi yn Rhan 4.4 y cyfansoddiad.

Mae Rhan 4.4 y cyfansoddiad yn rheoli'r modd y cynhelir cyfarfodydd y Cabinet.

## Sut mae'r Cabinet ~~[Y Weithrediaeth]~~ yn gwneud penderfyniadau?

Mae'n ofynnol i'r Cabinet ymgynghori â Chynghorwyr unigol a phwyllgorau penodol cyn gwneud penderfyniad penodol ar faterion nad ydynt yn rhai brys.

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol hefyd i'r Cabinet ymgynghori â'r cyhoedd cyn gwneud penderfyniadau penodol. Hyd yn oed lle nad yw'n ofynnol mewn deddfwriaeth i ymgynghori â'r cyhoedd, gall y Cabinet, fel arfer da, ymgynghori â'r cyhoedd cyn gwneud penderfyniadau eraill pwysig. Pan fydd y Cabinet yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, rhaid i'r Cabinet ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad wrth wneud eu penderfyniad.

Caiff y gofynion ymgynghori hyn eu hesbonio yn Rhan 4.4, para 2.4 y cyfansoddiad.

Rhaid i'r Cabinet gadw cofnod o bob penderfyniad y mae'n ei wneud, gan gynnwys pob penderfyniad gan aelod unigol o'r Cabinet a phwyllgorau'r Cabinet.

Mae Rhan 4.2, paragraff 14.1 y cyfansoddiad yn nodi'r gofynion ar gyfer cofnod y Cabinet o benderfyniadau.

Gallwch ddarllen cofnodion cyfarfodydd y Cabinet ar wefan y Cyngor

## Pam bod gan y Cyngor bwyllgorau a beth maen nhw'n ei wneud?

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu pwyllgorau er mwyn cyflawni rhai o swyddogaethau cyfreithiol y Cyngor.

Gall y Cyngor hefyd benderfynu sefydlu pwyllgorau a gweithgorau eraill er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gynnal ei fusnes yn effeithlon ac effeithiol.

### Beth mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn ei wneud?

*Pwyllgorau Craffu*

Mae'r Pwyllgorau Craffu yn gyfrifol am ddwyn y Cabinet a chyrff eraill y Cyngor i gyfrif.

Gall y Pwyllgorau Craffu: -

- adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wneir gan y Cabinet a rhannau eraill o'r Cyngor;
- llunio adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor neu i'r Cabinet; a
- cynnig newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.

Mae swyddogaethau'r Pwyllgorau Craffu wedi'u nodi yn Erthygl 6 y cyfansoddiad.

Rhaid hysbysu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am gyfarfodydd cyrff eraill y Cyngor. Mae ganddynt hawliau arbennig i weld dogfennau'r Cyngor.

Gall y Pwyllgorau Craffu hefyd ofyn i aelod o'r [Cabinet] neu unrhyw uwch swyddog cyflogedig o'r Cyngor ddod i gyfarfod o'r pwyllgor i esbonio penderfyniad y mae wedi'i wneud neu ei berfformiad.

Disgrifir hawliau a phwerau Pwyllgorau Craffu yn Erthygl 6 y cyfansoddiad.

Nodir y rheolau ynghylch aelodaeth o Bwyllgorau Craffu, cynnal cyfarfodydd pwyllgor a chyflawni'r swyddogaethau yn Rhan 4.5 o'r cyfansoddiad.

*Pwyllgor Safonau*

Mae'r Pwyllgor Safonau yn gyfrifol am hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ymhlith Cynghorwyr, gan gynnwys cynghori a hyfforddi Cynghorwyr ar god ymddygiad y cynghorydd a chynghori'r Cyngor ynghylch newidiadau i'r cod hwnnw.

Nodir swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau yn Erthygl 9 y cyfansoddiad.

Mae'r Pwyllgor Safonau hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad i gynghorwyr a gyfeirir i'w sylw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac am geryddu aelodau y canfyddir eu bod wedi methu cydymffurfio â'r cod hwnnw.

Y Swyddog Monitro yw'r uwch swyddog sy'n gyfrifol am gynghori a chefnogi'r Pwyllgor Safonau.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys cymysgedd o Gynghorwyr ac aelodau annibynnol (na allant fod yn aelodau nac yn swyddogion cyflogedig y Cyngor na pherthyn i aelodau na swyddogion cyflogedig y Cyngor).

Penodir cynghorwyr i'r Pwyllgor yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol (sy'n sicrhau bod cyfansoddiad gwleidyddol y pwyllgor yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor).

Gallwch ddarllen mwy am y Pwyllgor Safonau yn Erthygl 9 y cyfansoddiad.

## Beth mae pwyllgorau rheoleiddio a phwyllgorau eraill y Cyngor yn ei wneud?

*Pwyllgor Cynllunio*

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r system gynllunio yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys paratoi cynlluniau datblygu lleol a pholisïau cynllunio lleol (sy'n llywodraethu datblygiad yn ardal y Cyngor) a rheoli datblygiad (drwy roi neu wrthod caniatâd ar gyfer datblygiad newydd).

Bydd y Cyngor yn penodi Cynghorwyr unigol i'r Pwyllgor Cynllunio ac yn cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, ac ar bwerau i'w dirprwyo iddo i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

Gallwch ddarllen mwy am Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn Rhan 3 Tabl 3

*Pwyllgor Trwyddedu*

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am benderfynu a ddylid rhoi trwyddedau ar gyfer ystod eang o wahanol fusnesau, gwasanaethau a gweithgareddau yn ei ardal. Caiff swyddogaethau trwyddedu'r Cyngor eu dirprwyo i Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor.

Bydd y Cyngor yn penodi Cynghorwyr unigol i'r Pwyllgor Trwyddedu ac yn cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu, ac ar bwerau i'w dirprwyo iddo i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

Gallwch ddarllen mwy am Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor yn Rhan 3 Tabl 3 y cyfansoddiad.

*Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynghori'r Cyngor Llawn, y Cabinet a'u pwyllgorau a'u haelodau perthynol ar faterion sy'n ymwneud â llywodraethu da, goruchwylio ariannol, rheoli risg a chwynion.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn monitro effeithiolrwydd rheolau a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n gyfreithlon, yn gyfrifol a'i fod yn atebol i'r cyhoedd (cyfeirir at hyn yn y cyfansoddiad fel systemau llywodraethu a rheolaethau mewnol y Cyngor). Mae'r pwyllgor hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod penderfyniadau a chyllid y Cyngor yn cael eu harchwilio yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. Yn olaf, rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac

Archwilio adolygu a rhoi sylwadau ar adroddiadau hunanasesu corfforaethol y Cyngor ei hun.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys cymysgedd o Gynghorwyr ac aelodau lleyg (nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor). Penodir cynghorwyr i'r Pwyllgor yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol (sy'n sicrhau bod cyfansoddiad gwleidyddol y pwyllgor yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor).

Mae Rhan 3 Tabl 3 y cyfansoddiad yn egluro trefniadau'r Cyngor ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

*Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd*

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am benodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, adolygu'r adnoddau a ddarperir i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn rheolaidd ac adrodd wrth aelodau anweithredol y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Cynghorwyr, er bod cyfyngiad ar nifer yr aelodau Cabinet a all eistedd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Penodir cynghorwyr i'r Pwyllgor yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol (sy'n sicrhau bod cyfansoddiad gwleidyddol y pwyllgor yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor).

Mae Rhan 3 Tabl 3 y cyfansoddiad yn egluro trefniadau'r Cyngor ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## Beth yw cyd-bwyllgorau?

Gall y Cyngor gyflawni rhai o'i swyddogaethau ar y cyd ag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, a chyda chyrff cyhoeddus eraill. Gall y Cyngor benderfynu gwneud hyn lle bo'r Cyngor, er enghraifft, o'r farn y gallai hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol pobl sy'n byw yn ei ardal yn well drwy gydgysylltu ei weithgareddau ag awdurdodau lleol, cyrff neu bobl eraill.

Gall y Cyngor sefydlu cyd-bwyllgor ag awdurdodau lleol, cyrff neu bobl eraill, a dirprwyo penderfyniadau a swyddogaethau i'r cyd-bwyllgor hwnnw. Drwy ganiatáu i gyd-bwyllgor wneud penderfyniadau, gall y Cyngor sicrhau bod modd cydgysylltu penderfyniadau rhwng yr holl awdurdodau a chyrff a gynrychiolir ar y pwyllgor.

Gall y Cabinet hefyd sefydlu trefniadau ar y cyd ag un neu fwy o awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn cyflawni swyddogaethau gweithredol ar y cyd â'r awdurdodau hynny.

Mae Erthygl 10 y cyfansoddiad yn rheoli'r amgylchiadau lle gall y Cyngor neu'r Cabinet ymrwymo i drefniadau ar y cyd ag awdurdodau a chyrff eraill.

Gall y Cyngor a'r Cabinet hefyd ddirprwyo swyddogaethau neilltuol, neu eu rhoi allan ar gontract, i awdurdod lleol arall neu i gorff neu sefydliad arall.

Mae Erthygl 10 y cyfansoddiad yn esbonio trefniadau'r Cyngor ar gyfer dirprwyo swyddogaethau a'u rhoi allan ar gontract.

## Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru

Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru yn cynnwys Arweinwyr y Cynghorau sy'n aelodau ohono, a all benderfynu cyfethol aelodau gweithredol neu gynrychiolwyr partner eraill fel bo'n briodol.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru yn gyfrifol am y swyddogaethau canlynol: -

- trafnidiaeth ranbarthol;
- cynllunio strategol rhanbarthol;
- datblygu economaidd rhanbarthol; a

Rhaid i'r Cyngor gydweithio ag aelodau eraill o Gyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn.

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru o dan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. O ganlyniad i hynny, mae llawer o'r rheolau a'r safonau sy'n berthnasol i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru wedi'u nodi mewn rheoliadau yn hytrach nag yn y cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen mwy am drefniadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru yn Erthygl 10.3 y cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen y rheoliadau sy'n rheoli Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru ar-lein

Gallwch ddarllen mwy am gyd-bwyllgorau statudol yn gyffredinol mewn canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru

## Rhan 3 Rolau a chyfrifoldebau

## Pa rolau a gyflawnir gan Gynghorwyr?

Yn Rhan 6.1 y cyfansoddiad cewch hyd i wybodaeth am y rolau y gall Cynghorwyr eu cyflawni o fewn y Cyngor.

Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Arweinydd a Dirprwy Arweinydd;
- Cadeirydd ac Is-Gadeirydd;
- Aelod o'r Cabinet
- Cynorthwyydd i'r Weithrediaeth;
- Aelod Etholedig (Cynghorydd);
- Cadeirydd ac/neu aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;
- Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- Cadeirydd ac/neu aelod o'r Pwyllgorau Craffu;
- Aelod o'r Pwyllgor Safonau;
- Cadeirydd ac/neu aelod o bwyllgor rheoleiddio;
- Arweinydd yr Wrthblaid a Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid; ac
- Aelod Eiriolwr.
- Eiriolwyr eraill, ee, y Lluoedd Arfog???

Yn Erthygl 11 y cyfansoddiad cewch wybodaeth am y rolau a gyflawnir gan uwch swyddogion cyflogedig y Cyngor, gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Yn y rhan hon o'r canllaw ceir rhagor o wybodaeth am y rolau pwysig hyn.

## Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

Caiff y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu hethol gan y Cyngor Llawn bob blwyddyn.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am: -

- hyrwyddo a chynnal y cyfansoddiad;
- lywyddu cyfarfodydd y Cyngor Llawn;
- sicrhau bod cwrowm yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn, a bod y cyfarfodydd hynny'n cael eu cynnal gan gydymffurfio'n llwyr â rheolau gweithdrefn y Cyngor; a
- sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â'r cyfansoddiad.

Y Cadeirydd hefyd yw arweinydd sifil y Cyngor. Mae'n gyfrifol am hyrwyddo buddiannau ac enw da'r Cyngor, ac am gynnal gweithgareddau dinesig, cymunedol a seremonïol.

Mae'r Is-Gadeirydd yn cyflawni swyddogaethau'r Cadeirydd yn ei absenoldeb.

Gallwch ddarllen mwy am rôl a swyddogaethau'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn Erthygl 5 a Rhan 6 Atodiad A y cyfansoddiad.

Ceir disgrifiad o rôl y Cadeirydd yn Rhan 6 Atodiad A y cyfansoddiad.

Ceir disgrifiad o rôl yr Is-Gadeirydd yn Rhan 6 Atodiad A y cyfansoddiad.

Ceir hyd i fanyleb y person ar gyfer y Cadeirydd yn Rhan 6 Atodiad A y cyfansoddiad.

## Arweinydd a Dirprwy Arweinydd

Caiff yr Arweinydd ei ethol gan y Cyngor Llawn, fel arfer yn y cyfarfod blynyddol yn dilyn etholiad llywodraeth leol.

Penodir y Dirprwy Arweinydd gan yr Arweinydd i arfer swyddogaethau'r Arweinydd yn ei absenoldeb.

Yr Arweinydd sy’n gyfrifol am benodi Cynghorwyr i’r Cabinet ac am ddyrannu meysydd polisi a chyfrifoldebau penodol (portffolios) i aelodau’r Cabinet

Mae'r Arweinydd hefyd yn cadeirio cyfarfodydd y Cabinet

Bydd yr Arweinydd yn gweithredu fel aelod y Cyngor o Gyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru, ac fel cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

Gall yr Arweinydd benodi aelodau eraill o'r Cyngor i eistedd ar gyrff allanol eraill.

Ceir disgrifiad o rôl yr Arweinydd yn Rhan 6 Atodiad A y cyfansoddiad.

Ceir disgrifiad o rôl y Dirprwy Arweinydd yn Rhan 6 Atodiad A y cyfansoddiad.

Ceir manyleb y person ar gyfer yr Arweinydd yn Rhan 6 Atodiad A y cyfansoddiad.

## Aelod o'r Cabinet

Mae aelodau’r Cabinet yn gyfrifol am: -

- wneud penderfyniadau ynghylch materion sydd o fewn cwmpas eu cyfrifoldeb;
- chwarae rhan weithredol yng nghyfarfodydd ac ym mhenderfyniadau'r Cabinet;
- cyfrannu at ddatblygu blaenraglen waith y Cyngor ac at bolisïau a gweithdrefnau yn eu maes cyfrifoldeb;
- rhoi arweiniad gwleidyddol i swyddogion cyflogedig y Cyngor ar faterion y maent yn gyfrifol amdanynt;

- adrodd i'r Cyngor Llawn, i'r Arweinydd, i'r Cabinet ac i eraill ar berfformiad gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt; a

- chymryd rhan ym mhrosesau a gweithdrefnau craffu'r Cyngor, gan gynnwys drwy egluro'r penderfyniadau a wnaed ganddynt a'r swyddogaethau a gyflawnir o fewn eu maes i'r Pwyllgor Craffu perthnasol.

Ceir disgrifiad o rôl a manyleb y person ar gyfer aelodau'r Cabinet yn Rhan 6 Atodiad A y cyfansoddiad.

## Cynorthwyydd y Weithrediaeth

Mae cynorthwywyr y Weithrediaeth yn cefnogi aelodau'r Cabinet drwy ysgwyddo rhai tasgau a chyfrifoldebau ar eu rhan. Gallant fynd i gyfarfodydd, llunio adroddiadau, adolygu papurau a drafftio sylwadau ar gyfer yr aelod y maent yn ei gynorthwyo.

Nid yw Cynorthwywyr y Weithrediaeth yn aelodau o'r Cabinet ac ni chânt bleidleisio yng Nghyfarfodydd y Cabinet nac yng Nghyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet. Fodd bynnag, mae ganddynt hawl i fod yn bresennol ac i siarad yng nghyfarfodydd y Cabinet a'i bwyllgorau.

Nid oes gan y Cyngor gynorthwywyr ar gyfer y Weithrediaeth ar hyn o bryd.

## Pa rolau y mae swyddogion cyflogedig y Cyngor yn eu cyflawni?

Cefnogir aelodau etholedig y Cyngor gan swyddogion cyflogedig y Cyngor, sy'n atebol i'r Cyngor ac yn gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'r Cyngor Llawn, y Cabinet a'u pwyllgorau a'u cyrff yn cytuno arnynt.

Y **Prif Weithredwr** sydd â chyfrifoldeb corfforaethol a gweithredol cyffredinol dros waith y Cyngor a holl swyddogion cyflogedig y Cyngor.

Disgrifir rôl a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr yn Erthygl 11 y cyfansoddiad.

Mae'r **Swyddog Monitro** yn gyfrifol am sicrhau bod proses benderfynu'r Cyngor yn gyfreithlon a theg, cynnal a chadw at y cyfansoddiad, derbyn adroddiadau am achosion honedig o dorri dyletswyddau a rhwymedigaethau'r Cyngor a chynnal ymchwiliadau i honiadau o'r fath.

Disgrifir rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Monitro yn Erthygl 11.3 y cyfansoddiad.

Mae'r **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor, ei bwyllgorau a Chynghorwyr unigol ynghylch cyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau democrataidd y Cyngor mewn modd priodol.

Mae'r **Prif Swyddog Cyllid** yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau cyfreithlon a darbodus yn ariannol. Y mae hefyd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor ac am roi cyngor i Gynghorwyr ynghylch gweithdrefnau cyllidebol, a gweithdrefnau ariannol eraill y Cyngor.

Disgrifir rôl a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid yn Erthygl 11.4 y cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyflogi nifer o Brif Swyddogion eraill, ac mae gwybodaeth amdanynt ar gael yma

Mae Prif Swyddogion yn atebol i'r Cyngor am weinyddu a rheoli cyllid y gwasanaethau a'r gweithgareddau a neilltuir iddynt yn unol â pholisïau'r Cyngor.

Disgrifir rolau a chyfrifoldebau Prif Swyddogion yn Erthygl 11 y cyfansoddiad.

Mae’r prosesau ar gyfer recriwtio, penodi, disgyblu a diswyddo swyddogion wedi’u nodi yn Rhan 4.8 (Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion) y cyfansoddiad.

## Sut y dylai Cynghorwyr a Swyddogion ymddwyn?

### Dylai Cynghorwyr gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau

Disgwylir i gynghorwyr gadw at y safonau uchaf o ran ymddygiad personol a phroffesiynol. Disgrifir y safonau hynny yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau.

Bwriedir i God Ymddygiad yr Aelodau gynorthwyo a llywio Cynghorwyr i gadw at safonau ymddygiad priodol wrth wasanaethu eu cymuned. Yn ei dro, mae'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ac yn helpu i feithrin eu hymddiriedaeth yn eu cynrychiolwyr lleol a'u parch tuag atynt.

Mae Cod Ymddygiad yr Aelodau yn seiliedig ar 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, a bennwyd yn wreiddiol yn Adroddiad 1995 Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Ychwanegwyd tair egwyddor arall at yr egwyddorion llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae Cod Ymddygiad yr Aelodau yn gyson â'r egwyddorion hyn ac yn esbonio sut i'w cymhwyso'n ymarferol.

- **Anhunanoldeb**

  Rhaid i aelodau weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Ni chânt fyth ddefnyddio'u swydd fel aelod i roi mantais amhriodol iddyn nhw'u hunain, nac i roi mantais amhriodol i eraill neu roi eraill dan anfantais amhriodol.

- **Gonestrwydd**

  Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

- **Uniondeb a phriodoldeb**

  Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae eu huniondeb destun amheuaeth yn sgil unrhyw rwymedigaeth ariannol, neu rwymedigaeth arall, i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau. Ar bob achlysur, rhaid i aelodau osgoi cyfleu'r argraff o ymddygiad o'r fath.

- **Dyletswydd i gynnal y gyfraith**

  Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith a gweithredu'n unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi ynddynt ar bob achlysur.

- **Stiwardiaeth**

  Wrth weithredu eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio yn gyfreithlon ac yn ddarbodus.

- **Bod yn wrthrychol wrth wneud penderfyniadau**

  Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud apwyntiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion i dderbyn gwobrwyon a buddion, bydd yn rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod. Er bod yn rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol swyddogion ac y gallant roi ystyriaeth briodol i farn eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu ar eu barn ac, os yw'n briodol, pleidleisio ar unrhyw fater.

- **Cydraddoldeb a pharch**

  Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhywedd, hil, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, oedran neu grefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

- **Bod yn Agored**

  Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau na chaiff gwybodaeth ei datgelu ond yn unol â'r gyfraith.

- **Atebolrwydd**

  Mae aelodau'n atebol i'r etholwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i fod yn destun unrhyw graffu sy'n briodol i'w cyfrifoldebau.

- **Arweinyddiaeth**

  Rhaid i aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweiniad ac esiampl er mwyn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddrwydd a gonestrwydd swyddogion statudol yr awdurdod a'i gyflogeion eraill.

Gallwch ddarllen Cod Ymddygiad yr Aelodau yn llawn yn Rhan 5 y cyfansoddiad.

Disgwylir i Gynghorwyr sicrhau eu bod yn deall eu rhwymedigaethau o dan y Cod ac yn gweithredu mewn modd sy'n dangos eu bod yn ymrwymedig i gadw at y safonau uchel a ddisgwylir ganddynt o ran ymddygiad. Fodd bynnag, rhoddir hyfforddiant i'r Cynghorwyr pan gânt eu penodi i ddechrau, ac yn rheolaidd, i'w helpu i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

## Gofynion arbennig i Gynghorwyr sy'n aelodau o bwyllgor cynllunio'r Cyngor

Mae cynllunio yn effeithio ar fuddiannau preifat ac ariannol pobl mewn tir ac eiddo ac ar yr amgylchedd y mae cymunedau'n byw, gweithio a chwarae ynddynt.

Mae pwyllgor cynllunio'r Cyngor yn gyfrifol am gydbwyso anghenion a buddiannau unigolion a'r gymuned i wneud penderfyniadau sy'n agored, yn deg ac yn dryloyw ac sy'n seiliedig ar farn gadarn a rhesymau cyfiawnadwy.

Am y rhesymau hyn, mae disgwyl i aelodau pwyllgor cynllunio'r Cyngor gadw at god ymddygiad ychwanegol, sef y Cod Ymddygiad i Aelodau a Swyddogion sy'n Ymdrin â Materion Cynllunio.

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau a Swyddogion sy'n Ymdrin â Materion Cynllunio yn egluro'r canlynol, ymhlith pethau eraill: -

- rôl swyddogion wrth roi cyngor diduedd a phroffesiynol i aelodau'r pwyllgor;
- y ffactorau y dylid eu hystyried wrth ystyried cais am ganiatâd cynllunio, a'r ffactorau na ddylid eu hystyried;
- y dyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i aelodau'r pwyllgor roi sylw iddynt, fel y ddyletswydd i sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, a'r ddyletswydd i roi sylw i effaith datblygiad ar faint y defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cyngor.
- y camau y dylai aelodau eu cymryd os oes ganddynt fuddiant personol mewn mater sy'n cael ei benderfynu gan y pwyllgor (ee, pan fo cais yn ymwneud ag eiddo y maent yn berchen arno); a
- sut y dylid penderfynu ynghylch ceisiadau datblygu a gynigir gan, neu sydd i'w cyflawni gan, y Cyngor.

Gallwch ddarllen y Cod Ymddygiad i Aelodau a Swyddogion sy'n Ymdrin â Materion Cynllunio yn llawn yn Rhan 5.2 y cyfansoddiad.

## Dylai swyddogion gydymffurfio â Chod Ymddygiad y Swyddogion

Mae swyddogion cyflogedig y Cyngor yn gyfrifol am wasanaethu'r cyngor drwy roi cyngor i Gynghorwyr, gweithredu polisïau'r Cyngor, a darparu gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt ymddwyn gydag uniondeb, gonestrwydd, didueddrwydd a gwrthrychedd.

Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl y safonau uchaf o ran ymddygiad gan bawb sy'n gweithio i'r Cyngor. Mae'r Côd Ymddygiad i Swyddogion yn amlinellu'r rheolau a'r amodau gwasanaeth sy'n berthnasol i gyflogeion y Cyngor. Fe'i cynlluniwyd i roi arweiniad clir i'w cynorthwyo wrth eu gwaith bob dydd, a galluogi'r cyhoedd i ddeall yr hyn y gallant ei ddisgwyl wrth ryngweithio ag un o gyflogeion y Cyngor.

Gallwch ddarllen y Cod Ymddygiad i Swyddogion yn llawn yn Rhan 5.4 y cyfansoddiad.

Mae disgwyl i swyddogion sy'n cefnogi pwyllgor cynllunio'r Cyngor hefyd gadw at y Cod Ymddygiad i Aelodau a Swyddogion sy'n Ymdrin â Materion Cynllunio.

Gallwch ddarllen y Cod Ymddygiad i Aelodau a Swyddogion sy'n Ymdrin â Materion Cynllunio yn llawn yn Rhan 5.2 y cyfansoddiad.

## Sut y dylai Cynghorwyr a Swyddogion gydweithio?

Mae gan Gynghorwyr a Swyddogion wahanol rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd, ond mae'n hanfodol eu bod yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor ac i ddarparu gwasanaethau i drigolion sy'n byw yn ardal y Cyngor.

Mae'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau a Swyddogion wedi'i gynllunio i egluro priod rolau a chyfrifoldebau Cynghorwyr a Swyddogion ac i'w harwain yn eu hymwneud â'i gilydd. Mae'n egluro'r hyn y gall Cynghorwyr a Swyddogion ei ddisgwyl yn rhesymol gan y naill a'r llall a sut y dylent gydweithio i gyrraedd nod cyffredin.

Mae gan gynghorwyr yr hawl i fynegi barn wleidyddol ac i gefnogi polisïau’r blaid neu’r grŵp y maent yn perthyn iddi/iddo. I'r gwrthwyneb, disgwylir i swyddogion gyflawni busnes y Cyngor mewn modd gwleidyddol ddi-duedd, a chyfyngir ar lawer ohonynt rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch gwleidyddol. Mae'r protocol felly'n egluro sut y gall swyddogion gefnogi trafodaethau polisi gan grwpiau gwleidyddol, gan aros yn wleidyddol niwtral.

Gallwch ddarllen y Protocol ar Gysylltiadau Aelodau a Swyddogion yn llawn yn Rhan 5.5 y cyfansoddiad.

## Sut mae cwyno am Gynghorydd?

Os ydych chi eisiau gwneud cwyn am Gynghorydd, dylech gysylltu naill ai â Swyddog Monitro'r Cyngor neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- Mae proses gwyno'r Cyngor yn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch sut i wneud cwyn. Mae'r broses honno ar gael ar wefan y Cyngor

- Gallwch gysylltu â'r Swyddog Monitro drwy e-bost:- SwyddogMonitro@sirgar.gov.uk

- Ceir rhagor o wybodath am sut i gwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar wefan yr Ombwdsmon. <https://www.ombwdsmon.cymru/sut-i-gwyno/>

## Sut mae cwyno am wasanaeth a ddarperir gan y Cyngor?

Os oes gennych chi gŵyn am y Cyngor, ei weithwyr neu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, dylech wneud cwyn drwy broses gwyno'r Cyngor sydd i'w gweld ar wefan y Cyngor

## Rhan 4 Polisïau a gweithdrefnau

## Cynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor (y fframwaith polisi)

### Ble mae cael hyd i gynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor?

Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am bennu cynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio fframwaith polisi'r Cyngor.

Mae'r cynlluniau a'r strategaethau sy'n ffurfio fframwaith polisi'r Cyngor wedi'u rhestru yn Erthygl 4.1 y cyfansoddiad.

Cyhoeddir cynlluniau a strategaethau unigol ar wefan y Cyngor

Yn ogystal â hynny, mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yn dwyn ynghyd gynlluniau a strategaethau'r Cyngor ar gyfer: cymunedau; plant a phobl ifanc; iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant; a diogelwch cymunedol.

Caiff Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ei chyhoeddi wefan y Cyngor

### Sut y penderfynir ynghylch fframwaith polisi'r Cyngor?

Mae'r Cabinet yn gyfrifol am ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, am ystyried unrhyw adroddiadau neu argymhellion a wneir gan Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac am weithio gyda Phrif Swyddogion y Cyngor i ddatblygu fframwaith polisi drafft.

Ar ôl i'r Cabinet ddatblygu fframwaith polisi drafft, fe'i hystyrir gan gyfarfod o'r Cyngor Llawn. Gall y Cyngor Llawn benderfynu mabwysiadu'r fframwaith polisi, gwneud newidiadau iddo, ei gyfeirio'n ôl at sylw'r Cabinet er mwyn gallu gweithio ymhellach arno, neu gyflwyno'i fframwaith polisi ei hun i ddisodli'r drafft a luniwyd gan y Cabinet.

Os bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu mabwysiadu'r fframwaith polisi, bydd yn dod i rym ar unwaith. Os bydd y Cyngor Llawn yn diwygio'r fframwaith polisi, bydd yr Arweinydd yn cael cyfle i wrthwynebu'r diwygiadau ac i ailgynnull y Cyngor Llawn i ailystyried y fframwaith polisi.

Ar ôl mabwysiadu'r fframwaith polisi, mae'n rhaid i'r Cabinet, ei bwyllgorau, Cynghorwyr unigol a swyddogion cyflogedig y Cyngor weithredu'n unol â'r fframwaith hwnnw.

Disgrifir y broses a ddilynir er mwyn i'r Cyngor Llawn fabwysiadu fframwaith polisi yn Rhan 4.3 y cyfansoddiad.

## Pennu cyllideb a rheolaeth ariannol

**<u>Sut mae'r Cyngor yn pennu ei gyllideb?</u>**

Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am gytuno ar gyllideb y Cyngor, ac am gytuno ar newidiadau i gyllideb y Cyngor ar ôl iddi gael ei mabwysiadu'n ffurfiol.

Mae dwy ran i gyllideb y Cyngor: -

- mae'r gyllideb refeniw yn darparu ar gyfer costau gweithredu o ddydd i ddydd a gwariant fel cyflogau staff, rhent, a chostau parhaus darparu gwasanaethau.
- mae'r gyllideb gyfalaf yn darparu ar gyfer costau untro fel cynllun gwella ffyrdd mawr, neu brynu neu adeiladu maes parcio newydd.

Mae'r Cabinet, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, yn gyfrifol am ddatblygu cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb y Cyngor ac am ymgynghori ar y cynigion hynny.

Cyn gynted ag y bo'r ymgynghoriad wedi'i gwblhau, mae'r Cabinet yn gyfrifol am lunio cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

Gall y Cyngor Llawn fabwysiadu'r gyllideb heb wneud unrhyw newidiadau, diwygio'r gyllideb, neu ofyn i'r Cabinet ei hailystyried cyn ei mabwysiadu.

Disgrifir y broses a ddefnyddir gan y Cyngor Llawn i fabwysiadu ei gyllideb yn Rhan 4.3 y cyfansoddiad.

## Penderfyniadau y tu hwnt i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi

**<u>A ellir gwneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyllideb neu'r fframwaith polisi?</u>**

Gall y Cyngor Llawn benderfynu gwneud newidiadau i'r fframwaith polisi.

Dim ond mewn nifer cyfyngedig o amgylchiadau eithriadol, a nodir yn y cyfansoddiad, y caiff cyrff ac unigolion eraill wneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi. Er enghraifft, lle bo'n rhaid gwneud penderfyniad brys i ddiogelu buddiannau'r Cyngor ac nad yw'n bosibl trefnu cyfarfod o'r Cyngor Llawn mewn pryd.

Fodd bynnag, gall pwyllgorau craffu'r Cyngor benderfynu cyfeirio penderfyniadau o'r fath i'w hystyried ymhellach gan y Cyngor Llawn ("galw'r penderfyniad i mewn" yw'r enw ar hyn yn y cyfansoddiad).

Disgrifir pwerau'r pwyllgorau craffu yn Erthygl 6 y cyfansoddiad.

## A ellir symud arian o'r naill bennawd cyllideb i'r llall ar ôl mabwysiadu'r gyllideb?

Yn ystod y flwyddyn efallai y bydd angen i'r Cabinet a'r Prif Swyddogion drosglwyddo cyllidebau o un maes gwasanaeth i'r llall i adlewyrchu newid i anghenion neu flaenoriaethau gwasanaeth, er mwyn cyflawni fframwaith polisi'r Cyngor o fewn y terfynau ariannol a osodwyd gan y Cyngor.

Esbonnir y mecanwaith y gall y Cabinet a Phrif Swyddogion ei ddefnyddio i symud arian rhwng penawdau cyllideb yn Rhan 4.3 paragraff 3 y cyfansoddiad.

## Pa bolisïau a gweithdrefnau eraill sy'n llywdoraethu ar y modd y mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllideb?

Mae'n rhaid i'r Cyngor gadw at nifer o wahanol reolau a gweithdrefnau ariannol sy'n rheoli'r modd y caiff gwariant y Cyngor ei gynllunio, ei glustnodi, ei adolygu a'i archwilio.

Nodir rheolau gweithdrefn ariannol manwl y Cyngor yn Rhan 4.6 y cyfansoddiad.

## A oes unrhyw gyfyngiadau ar y modd y mae'r Cyngor yn prynu nwyddau a gwasanaethau i mewn?

Gall y Cyngor ymrwymo i gontractau i brynu nwyddau a gwasanaethau yn yr un modd ag y gall unrhyw unigolyn neu sefydliad arall. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r rheolau gweithdrefn contractau yn y cyfansoddiad wrth wneud hynny.

Pwrpas y rheolau gweithdrefn contractau yw sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol perthnasol ac yn sicrhau'r nwyddau a'r gwasanaethau mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd (gwerth gorau) i drethdalwyr.

Os ydych chi'n gwerthu nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor yn rheolaidd efallai y byddwch am ymgyfarwyddo â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn.

Mae rheolau gweithdrefn contractau'r Cyngor wedi'u nodi yn Rhan 4.7 y cyfansoddiad.

**<u>Sut mae'r Cyngor yn ymrwymo i gontractau a chytundebau?</u>**

Mae’r rheolau a’r gweithdrefnau sy’n rheoli'r modd y caiff cytundebau, contractau a gweithredoedd eu hawdurdodau a'u rhoi mewn grym ar ran y Cyngor wedi'u nodi yn Rhan 4.7 y cyfansoddiad.

## Rhan 5 Sut y gallaf gymryd rhan?

## Sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â phobl leol i'w hannog i gymryd rhan mewn democratiaeth leol?

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sy'n esbonio sut y bydd yn annog pobl leol i gymryd rhan ym mhrosesau penderfynu'r Cyngor. Mae strategaeth y Cyngor ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn disgrifio sut y bydd y Cyngor yn:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Cyngor;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut y gall pobl ddod yn Gynghorydd, a'r hyn y mae'r rôl yn ei olygu;
- hwyluso mynediad at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y Cyngor;
- hyrwyddo trefniadau sy'n galluogi pobl i gyflwyno sylwadau i'r Cyngor ynghylch penderfyniadau y mae wedi'i gwneud, neu y bydd yn eu gwneud yn y dyfodol;
- sicrhau bod safbwyntiau'r cyhoedd yn cael eu dwyn i sylw ei Bwyllgorau Craffu; a
- hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith Cynghorwyr ynghylch manteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymgysylltu â phobl leol drwy baneli dinasyddion ac arolygon ac ymgyngoriadau ynghylch polisïau a gwasanaethau penodol. Gall y Cyngor, adrannau gwasanaeth o fewn y Cyngor neu bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r Cyngor sbarduno'r rhain.

Caiff <u>strategaeth</u> y Cyngor ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor

## A allaf anfon deiseb i'r Cyngor?

Gallwch. Gallwch gyflwyno deisebau i'r Cyngor ar ffurf copi caled neu'n electronig drwy ddefnyddio cynllun deisebau electronig y Cyngor. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor weithredu cynllun deisebau, sy'n nodi: -

- sut y gellir cyflwyno deiseb i'r Cyngor;
- sut a phryd y bydd y Cyngor yn cydnabod derbyn deiseb;
- y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb; a
- sut ac erbyn pryd y bydd y Cyngor yn darparu ei ymateb i ddeiseb, i'r sawl a gyflwynodd y ddeiseb ac i'r cyhoedd.

Gallwch ddarllen mwy am gyflwyno deiseb i'r Cyngor yn Rhan 4.1 RhGC 10.11-10.19 y cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi manylion ei gynllun deisebau ar ei wefan.

## Sut mae cael gwybod pryd mae cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau a'i gyrff yn cael eu cynnal?

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiadau o gyfarfodydd y Cyngor Llawn a'i bwyllgorau.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y gofynion i roi rhybudd o gyfarfod yn Rhan 4.2 y cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiadau o gyfarfodydd, a rhaglen o gyfarfodydd sydd ar ddod, ar ei wefan.

## Sut mae cael gwybod beth fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod penodol?

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi agendâu ar gyfer cyfarfodydd, ynghyd ag unrhyw bapurau cefndir ac adroddiadau cyn cynnal y cyfarfod.

Bydd copïau caled o agendâu a phapurau cefndir ac adroddiadau hefyd ar gael yn y cyfarfod i'r aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n dymuno bod yn bresennol yn y cnawd.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi agendâu cyfarfodydd a dogfennau ac adroddiadau ategol ar ei wefan

## Sut alla i ddarganfod pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar fater y mae gen i ddiddordeb ynddo?

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi blaenraglen waith, sy'n nodi pa benderfyniadau a gymerir gan y Cyngor Llawn a'r Cabinet, a pha faterion y bydd y Pwyllgorau Craffu yn eu hystyried, a phryd y caiff y materion hyn eu trafod.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei flaenraglen waith ar ei wefan

## A gaf i ofyn i bwyllgor neu gorff o'r Cyngor ymchwilio i fater penodol?

Cewch. Gallwch gysylltu â'ch cynghorydd i drafod materion sydd o ddiddordeb ichi, ac mae'n bosibl y bydd yntau/hithau'n gallu codi'r materion hynny yn ystod cyfarfod, os ydynt yn berthnasol; gelwir hyn yn Alwad gan Gynghorydd i Weithredu.

Gallwch hefyd ofyn i gadeirydd corff neilltuol i ychwanegu eitem i'w chynnwys ar agenda yn y dyfodol, neu fynd i gyfarfod a gofyn i'r corff hwnnw edrych ar fater wrth ystyried eitemau i'w trafod yn y dyfodol.

## A gaf arsylwi cyfarfodydd y Cyngor Llawn?

Cewch. Gall aelodau o'r cyhoedd ddod i arsylwi cyfarfodydd y Cyngor Llawn ar yr amod bod y cyfarfodydd hynny'n cael eu cynnal yn gyhoeddus.

Caiff cyfarfodydd y Cyngor Llawn hefyd eu darlledu'n fyw ar wefan y Cyngor, felly gallwch eu gwylio o bell mewn amser real os dymunwch.

Ni chaiff y cyhoedd ond eu gwahardd o gyfarfodydd os yw'n debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu iddynt o ganiatáu iddynt fod yn bresennol. Gall y Cyngor hefyd wahardd y cyhoedd o gyfarfod, neu ran o gyfarfod, lle bo gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu. Mae gwybodaeth eithriedig yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn neilltuol neu ei faterion ariannol neu fusnes, gwybodaeth gyfreithiol freintiedig neu wybodaeth sy'n ymwneud ag atal trosedd neu ymchwiliad neu erlyniad troseddol, neu wybodaeth arall a nodir yn y cyfansoddiad.

Os byddwch yn tarfu ar gyfarfod o'r Cyngor, mae'n debygol y bydd y Cadeirydd yn eich rhybuddio am achosi aflonyddwch. Os byddwch yn parhau i darfu ar y cyfarfod, mae'n bosib y bydd yn rhaid ichi ymadael.

Mae’r rheolau ynghylch gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd wedi’u nodi yn Rhan 4.2 para 10 y cyfansoddiad.

Mae’r rhwymedigaethau i ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor wedi’u nodi yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae'r rheolau ynghylch aflonyddwch gan aelodau'r cyhoedd wedi'u nodi yn Rhan 4.1 RhGC 21 y cyfansoddiad.

## A gaf arsylwi cyfarfodydd eraill?

Cewch. Gall aelodau o'r cyhoedd ddod i arsylwi unrhyw gyfarfod y mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylid ei gynnal yn gyhoeddus.

Disgrifir eich hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Cabinet y Cyngor a phwyllgorau a chyrff eraill y Cyngor yn Erthygl 3 y cyfansoddiad.

## A gaf i siarad mewn cyfarfod?

Caiff aelodau'r cyhoedd siarad mewn unrhyw gyfarfod lle mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylid caniatáu i aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan.

## A gaf i ofyn cwestiwn mewn cyfarfod?

Cewch ofyn cwestiynau ffurfiol i aelodau o'r Cabinet yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn.

Fodd bynnag, ni chewch ond gofyn cwestiwn os ydych chi wedi rhoi rhybudd mewn ysgrifen (gan gynnwys drwy e-bost), a chyn y cyfarfod, i'r swyddog dynodedig (a elwir hefyd yn "swyddog priodol"), sef y Prif Weithredwr neu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn aml, eich bod yn dymuno gofyn cwestiwn.

Ni chewch ond gofyn un cwestiwn, ond os na allwch fod yn bresennol yn y cyfarfod cewch enwebu rhywun i fod yn bresennol yn y cyfarfod a gofyn y cwestiwn ar eich rhan.

Cyfyngir ar yr amser ar gyfer cwestiynau, a bydd cwestiynau'n cael eu caniatáu yn y drefn y cafodd y swyddog priodol, sef y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn aml, wybod amdanynt. Os yw'r amser ar gyfer cwestiynau'n dod i ben cyn ichi allu gofyn eich cwestiwn chi, byddwch yn cael ateb ysgrifenedig i'ch cwestiwn yn lle hynny.

Gallwch ddarllen mwy am ofyn cwestiynau yn Rhan 4.1 CPR10 y cyfansoddiad.

Gallwch anfon e-bost at y Prif Weithredwr drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol:- prifweithredwr@sirgar.gov.uk

## Sut mae cael gwybod beth oedd penderfyniad y Cyngor?

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi agenda, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd unwaith y byddant wedi'u cytuno. Mae'r papurau hyn ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am

o leiaf chwe blynedd o ddyddiad y cyfarfod. Mae'r papurau cefndir ar gael i'r cyhoedd am o leiaf pedair blynedd. Efallai y byddwch hefyd yn gallu gweld recordiadau gwe-ddarllediad o lawer o gyfarfodydd.

Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith hefyd ar gyfer cyhoeddi cofnodion ysgrifenedig o benderfyniadau a wneir gan y Cabinet a phwyllgorau'r Cyngor a chyrff eraill.

Gallwch ddarllen am drefniadau'r Cyngor ar gyfer cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd yn rhan 4.2 y cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau ac agendâu ar wefan y Cyngor

## A gaf weld cyfrifon y Cyngor i ddeall sut mae'n gwario fy nhreth gyngor?

Cewch. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei gyfrifon a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Gallwch gysylltu â'r Cyngor neu ag archwilydd allanol y Cyngor i ofyn cwestiynau am agweddau sy'n destun pryder yng nghyfrifon y Cyngor.

Gallwch weld cyfrifon y Cyngor yma